# Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig

## Ymchwil i Arall gyfeirio Economi Gwledig

Mae CYMAD, sef cwmni datblygu gwledig yng Ngwynedd wedi bod wrthi ers 1996 ym maes datblygu gwledig ac wedi efo gweddill aelodau Rhwydwaith Leader Cymru meithrin cryn brofiad a gwybodaeth am anghenion a'r cyfleon ar gyfer ein cymunedau gwledig.

**Marchnata ac Ychwanegu Gwerth**

Er mwyn ateb y cwestiwn 'beth y medrir eu gwneud i gynorthwyo datblygu cynnyrch a gwasanaethau gwerth uchel, brandio a cyd-farchnata' rhaid ystyried sawl ffactor.

***** Rhaid cydnabod yr angen i rannu y diwydiant amaeth i fyny er mwyn osgoi y gor- ddibyniaeth ar rai cynnyrch craidd yn arbennig cig coch.

***** Dylid cydnabod nad oes 'quick fix' a bod angen edrych ar ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd dros gyfnod o amser.

*****Ei bod yn cymeryd o leiaf tair blynedd i addasu cynllun o fod yn gysyniad i fodolaeth ymarferol.

***** Fod angen adeiladu ar gryfderau naturiol ardal ee: Pa gynnyrch sydd ar gael? Oes yna sylfaen prosesu cynnyrch eisioes mewn bodolaeth? ee: Hufenfa, Lladd-dy. Oes na gyfle i ddatblygu clwstwr o sectorau mewn ardal.

***** Rhaid hefyd ceisio cael y sector amaeth yn ei gyfanrwydd i dderbyn yr egwyddor o aml-gyflogaeth yn hytrach na'i weld fel rhywbeth negyddol.

O gael yr egwyddorion hynny mewn lle yna medrir gweithredu fel a ganlyn:

***** Darparu adnoddau ariannol tebyg i 'Gronfa Datblygu Gwledig' y medrir ceisio amdano i wneud gwaith ymchwil dechreuol, astudiaethau dichonoldeb ac ati i gynnyrch posib.

***** Cynorthwyo efo ymchwil marchnad. Hyn yw'r prif wendid a welir ym mhob cynllun datblygu cynnyrch.

***** Sicrhau strwythur syml lle fyddai cynlluniau sy'n dangos cryn botensial ar ôl yr astudiaeth dichonoldeb dechreuol yn medru cael mynediad hwylus i adnoddau i ddatblygu y cynllun ymhellach yn

hytrach na gwynebu oedi hir proses bidiau.

***** Dylai'r Cynulliad a'i phartneriaid cydnabod y gwaith a wneir eisioes ac adeiladu ar hynny yn hytrach na amlhau ymdrechion.

***** Rhaid defnyddio cyrff ac asiantaethau sy'n agos i'r gymuned boed cymuned ddaearyddol neu sectoraidd i wneud llawer o'r gwaith datblygu.

***** Bod y Cynulliad a'i phartneriaid, tra yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus, yn fodlon cymeryd risc a chefnogi cynlluniau sy'n arbrofi ac arloesi.

**Esiamplau o gynlluniau lleol:**

**Biff Llyn** – Menter 160 o ffermwyr i ychwanegu gwerth at gig eidion a phrosesu lleol.

**Cynnyrch Gwynedd** – 6 ffermwyr yn tyfu llysiau a datblygu llinellau cyflenwi lleol.

**Croeso Cader Idris** – Grp gwyliau fferm lwyddiannus yn Ne Meirionnydd.

**Bio fibres Cyf** – Sefydlu canolfan prosesu Llin a Cywarch ger Caernarfon.

**Cosywool** – Datblygu cynnyrch newydd a marchnata cynnyrch o wlân.

Mae'r cynlluniau hyn, ac eraill wedi deillio o waith rhaglen Leader 2 Gwynedd. Os ydym am wella cyfleon cyflogaeth trwy fentrau datblygu cymunedol gwledig yna unwaith eto rhaid adeiladu ar y gwaith a wneir eisioes. Pwrpas rhaglen fel Leader yw i weithredu fel catalydd a darparu adnoddau am gyfnod penodol oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd.

Mae angen i'r Cynulliad dechrau gweithredu rhaglen fewnol Gymreig cyffelyb fyddai yn medru gweithredu mewn modd tebyg i Leader, yn gwahodd bidiau ac ati ar sail rhaglen waith. Ond fod yn ychwanegol at Leader os oes angen mewn rhai llefydd neu fod yn lle Leader mewn rhannau o'r Gymru wledig na fydd yn medru manteisio o Leader.

Hynny ydw yn ddIOs mae'r angen yno ac mae'r cyfleon yno ac yn y cyfnod presennol medrid hefyd defnyddio adnoddau datblygu gwledig a chymunedol Amcan 1 i ychwanegu gwerth i fuddsoddiad y Cynulliad. Fe fyddai rhaglen datblygu gwledig integreiddiedig o'r fath hefyd yn arf defnyddiol iawn i uned wledig newydd y Cynulliad.

Elwyn Vaughan

CYMAD

21/03/01